WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Mr Jack Straw
Prif Weithredwr
Dinas a Sir Abertawe
Y Ganolfan Ddinesig
Heol Ystumllwynarth
Abertawe
SA1 3SN

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod** | 638A2012 |
| **Dyddiad** | 18 Rhagfyr 2012 |
| **Tudalennau** | **1** o **6** |

Annwyl Jack

# Asesiad Gwella

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r casgliadau allweddol sy'n codi o waith Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn perthynas â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur).

Mae gofyn i mi adrodd ar fy ngwaith archwilio ac asesu i bennu a gyflawnodd Cyngor Dinas a Sir Abertawe (y Cyngor) ei ddyletswyddau a bodloni gofynion y Mesur.

Yn dilyn fy llythyr Asesiad Gwella ym mis Medi 2012, mae'r llythyr hwn yn crynhoi:

- fy sylwadau ar i ba raddau mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol o ran adrodd am welliant;
- fy sylwadau, a sylwadau rheoleiddwyr perthnasol, ar drefniadau'r Cyngor i gynnal hunanwerthusiad effeithiol;
- fy nghynigion pellach ar gyfer gwella a/neu argymhellion.

Cafodd fy sylwadau eu llywio gan adolygiad o Adroddiad Adolygiad Blynyddol o Berfformiad 2011-12 y Cyngor (yr Adroddiad), gwybodaeth gyhoeddedig am berfformiad, archwiliad o sampl o Ddangosyddion Perfformiad y Cyngor, cydgysylltu rheolaidd â'r Tîm Rheoli Busnes Corfforaethol ac adolygiad o drefniadau rheoli perfformiad mewn sampl o feysydd â blaenoriaeth.

Byddaf yn crynhoi fy holl waith a gwaith rheoleiddwyr perthnasol yn ystod 2012-13 ac yn cyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol y Cyngor erbyn diwedd mis Mawrth 2013.

## Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau adrodd ar welliant o dan y Mesur

Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau adrodd ar welliant o dan y Mesur. Cyhoeddodd y Cyngor asesiad o'i berfformiad yn ystod 2011-12 yn yr Adroddiad erbyn 31 Hydref 2012, ac mae'n ceisio adborth gan ddinasyddion.

Mae'r Adroddiad:

- yn asesu perfformiad y Cyngor yn y flwyddyn ariannol flaenorol (2011-12):
- yn cynnwys manylion perfformiad a chymariaethau fel y'u mesurwyd gan y dangosyddion perfformiad statudol cenedlaethol:
- yn manylu ar y ffordd y mae'r Cyngor wedi ceisio cydweithredu:
- yn dangos sut mae'r Cyngor yn mynd ati i geisio adborth gan gymunedau a dinasyddion.

## Mae lle i'r Cyngor weithredu'n fwy unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

Mae elfennau o'r Adroddiad y gellid eu datblygu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru megis:

- Gellid ymhelaethu ar adroddiadau ar berfformiad yn y gorffennol drwy gymharu perfformiad â blynyddoedd blaenorol, â chyrff cymaradwy eraill a gellid gwneud mwy o ddefnydd o wybodaeth ansoddol megis data meincnodi:
- Cynnwys manylion ynghylch a yw gweithgarwch cydweithredu wedi cyflawni'r hyn a fwriadwyd yn ogystal ag adroddiad ynglŷn â sut y mae'r Cyngor wedi arfer ei bwerau i gydweithredu:
- Drwy esbonio'n benodol farn y Cyngor ar ei lwyddiant i gyflawni pob un o'i amcanion gwella.

## Rhoddodd yr adroddiad ddarlun cytbwys o berfformiad ar y cyfan ac mae'r newidiadau yn y ffordd y caiff perfformiad ei nodi yn adlewyrchu ymrwymiad y Cyngor i ddangos canlyniadau i ddinasyddion a chymunedau.

### Rhoddodd yr adroddiad ddarlun cytbwys o berfformiad ar y cyfan, ond gallai'r Rhagair a'r crynodeb gweithredol fod wedi nodi'n gliriach feysydd o berfformiad gwannach

Ar y cyfan mae'r Cyngor wedi llunio adroddiad cytbwys sydd wedi'i ategu gan gyfres gytbwys o ddangosyddion perfformiad ac mae'n cysylltu ag amrywiaeth o adroddiadau manwl atodol a dogfennaeth ategol.

Wrth geisio gwneud y Rhagair a'r crynodeb gweithredol yn gryno crëwyd darlun anghytbwys. Mae'r Rhagair yn cyfeirio at 'gynnydd da o ran cyflawni ein blaenoriaethau ynglŷn â chymunedau cynaliadwy, gwell perfformiad economaidd, gofalu am bobl sy'n agored i niwed a diogelu plant a phobl ifanc yn erbyn cefndir heriol'. Fodd bynnag, nid yw'r Rhagair wedyn yn cydbwyso hyn drwy gyfeirio at unrhyw feysydd lle mae perfformiad wedi dirywio neu lle mae'n parhau'n is na chyfartaledd Cymru megis rheoli gwastraff. Mae'r gwasanaeth yn yr 21ain safle yng Nghymru o ran canran y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi, ac mae ychydig yn uwch na'r chwartel isaf sef safle 16 yng Nghymru o ran lefelau ailgylchu. Felly mae risg sylweddol na fydd y Cyngor yn cyflawni targedau Llywodraeth Cymru, a gall gael cosb ariannol o ganlyniad i hynny. Cydnabyddir yr her i gyflawni targedau cenedlaethol yn y Crynodeb a phrif gorff yr Adroddiad. Nid yw'r Crynodeb yn nodi perfformiad cymharol mewn Addysg, lle mae presenoldeb yn y sectorau Cynradd ac Uwchradd naill ai yn y chwartel isaf neu ychydig yn well na pherfformiad y chwartel isaf yng Nghymru.

Mae'r adroddiad yn rhoi asesiad cyffredinol lefel uchel o 'gynnydd da' ar gyfer pob amcan gwella ond nid yw'n cynnig barn wedi'i hategu'n glir o'i asesiad o'i berfformiad ar gyfer pob un o'i amcanion gwella ar gyfer 2011-12. Mae cryn dipyn o wybodaeth i ategu gwerthusiad, ond fe'i gadawyd i'r darllenydd lunio ei farn ei hun ynghylch a yw'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran cyflawni amcanion gwella penodol.

Mae gwybodaeth fanylach am berfformiad ar gael yn Rhan 2 o'r Adroddiad, naill ai yng nghorff y ddogfen neu drwy hyperddolenni/botymau poeth wrth gyrchu'r wybodaeth yn y fersiwn gwe. Ceir dadansoddiad o Ddangosyddion Perfformiad o dan bob amcan gwella ar y wefan, sy'n nodi'r ganran a gyflawnodd ei tharged, y ganran a wellodd a'r ganran a arhosodd yn ddigyfnewid neu'r ganran a oedd yn cyfateb i 100 y cant. Dim ond os gall y darllenydd gael mynediad i'r fersiwn gwe o'r adroddiad y bydd y wybodaeth hon ar gael iddo.

Nododd ein hadolygiad o sampl o feysydd gwasanaeth rai enghreifftiau lle nad yw'r cynnydd a nodwyd yn rhoi darlun cyflawn na chywir o berfformiad. Er enghraifft, o dan yr amcan gwella ym maes gwastraff ac ailgylchu, nid yw'r Adroddiad yn nodi'r ffaith bod anhawster i gael elusennau i gofrestru ar gyfer y cynllun credydau ailddefnyddio/ailgylchu ac felly mae'r nifer a gofrestrwyd yn isel.

Mae'r Mesur yn annog cynghorau i gyflwyno adroddiad ar berfformiad y tu hwnt i'w Amcanion Gwella. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar weithgareddau a mesurau i gefnogi ei Amcanion Gwella, ac nid yw'n cwmpasu meysydd allweddol eraill, megis tai. Mae hyn yn syndod o gofio bod y Cyngor wedi cadw ei stoc dai ac mae'n anelu at gyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru. Felly mae perfformiad yn y maes hwn yn debygol o fod o ddiddordeb i ddinasyddion a chymunedau'r Cyngor, yn enwedig ei denantiaid.

**Mae strwythur yr Adroddiad yn adlewyrchu dull newydd o adolygu perfformiad, a fydd, o'i sefydlu, yn galluogi'r Cyngor i ddangos canlyniadau i ddinasyddion a chymunedau.**

Mae'r Cyngor wrthi'n datblygu dull o reoli perfformiad sy'n seiliedig ar atebolrwydd drwy ganlyniadau ac mae wedi strwythuro ei adroddiad i ofyn y cwestiynau canlynol mewn perthynas â'r amcanion gwella:

- ‘beth rydym wedi'i wneud?’;
- ‘pa mor dda rydym yn ei wneud?’;
- 'beth yw'r effaith?';
- 'a oes unrhyw un yn well ei fyd?'

Ar y cyfan, mae'r naratif o dan y cwestiynau hyn yn adlewyrchu perfformiad yn erbyn dangosyddion neu'n tynnu sylw at gamau gweithredu yn y dyfodol, ond nid yw bob amser yn mynd ati i nodi'r canlyniad gwirioneddol i ddefnyddwyr gwasanaethau, a hynny'n bennaf am fod y Cyngor wrthi'n datblygu'r dull hwn o gyflwyno adroddiad ac nad yw wedi casglu'r wybodaeth angenrheidiol yn draddodiadol. Mae'r Tîm Rheoli Busnes Corfforaethol wrthi'n gweithio gyda thimau darparu gwasanaethau i ddatblygu mesurau y bydd timau yn eu defnyddio yn y dyfodol a fydd yn dangos yn well y canlyniadau a brofwyd gan ddefnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill.

Canfu ein hadolygiad o drefniadau'r Cyngor ar gyfer llunio dangosyddion perfformiad fod systemau yn ddibynadwy. Roedd pob agwedd sy'n hanfodol i lunio dangosyddion, eu defnyddio a chyflwyno adroddiadau arnynt, ar waith. Roedd y prif fwlch mewn gwybodaeth am berfformiad yn ymwneud â mesur ‘canlyniadau’.

Mae'r Adroddiad yn cynnwys adran ar wybodaeth am berfformiad a'r ffordd y caiff ei defnyddio. Mae hon yn rhoi gwybodaeth am drefniadau rheoli perfformiad y Cyngor, gan gynnwys sut y mae'n pennu ei flaenoriaethau, sut y caiff y rhain eu monitro a sut y caiff risgiau eu rheoli. Fodd bynnag, gellid ychwanegu at yr adran hon ac nid yw'n nodi'n glir sut y mae'r Cyngor yn defnyddio ei wybodaeth am berfformiad i asesu a herio perfformiad yn rheolaidd a'r hyn y mae wedi'i wneud i gymharu ei berfformiad.

Cyfeirir at ychydig o wybodaeth ansoddol yn yr Adroddiad ond cyfyngedig ydyw. Canolbwyntir yn bennaf ar berfformiad yn erbyn mesurau a dangosyddion. Mae'r canllawiau hefyd yn argymell defnyddio mathau eraill o wybodaeth ansoddol, megis arolygon, meincnodi yn erbyn grwpiau teuluol ac â chyrff cymaradwy eraill o bosibl, a all gynnwys cynghorau eraill. Cynigiwyd hyn fel gwelliant y llynedd a dylai'r Cyngor ddangos yn gliriach sut yr eir i'r afael â hyn.

## Nid yw'r hyn sy'n deillio o gydweithredu wedi'i nodi'n glir.

Nodir amrywiaeth mawr o drefniadau cydweithredu yn yr adroddiad, ond eto nid ydynt wedi'u cysylltu â'r Amcan Gwella perthnasol na'r maes â blaenoriaeth y maent yn eu cefnogi. Er enghraifft, gallai'r Cyngor esbonio effaith y cynllun trin gwastraff bwyd rhanbarthol a ragwelir ar ei berfformiad, cynllun a all fod yn ateb costeffeithlon a diwallu anghenion gwaredu gwastraff bwyd y rhanbarth am y 25 mlynedd nesaf.

## Mae'r Cyngor wedi ceisio cyrraedd cynulleidfa eang drwy ei gyhoeddiad.

Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru yn pwysleisio bod angen cyhoeddi gwybodaeth yn y ffordd fwyaf addas ar gyfer anghenion y cynulleidfaoedd y darperir y wybodaeth ar eu cyfer. Dylai hyd a lled y wybodaeth fod yn glir a dylai’r wybodaeth fod ar gael yn rhwydd i bob cynulleidfa. Mae'r Cyngor wedi arloesi wrth geisio hyrwyddo'r adroddiad a sicrhau ei fod yn cyrraedd cynulleidfa ehangach fel a ganlyn:

- Drwy gyhoeddi'r wybodaeth ar ei wefan mewn ffordd hwylus iawn i ddefnyddwyr gan ei gwneud yn haws i fynd drwyddi a'i darllen. Mae fformat y ddogfen lawn hefyd yn rhesymegol ac yn gryn welliant o gymharu â dogfen y llynedd.
- Drwy baratoi crynodeb ac adroddiad manwl.
- Drwy roi cyhoeddusrwydd i'w adroddiad mewn papur newydd lleol.
- Drwy roi copïau mewn llyfrgelloedd lleol a rhoi cymorth gan staff y Cyngor.
- Drwy gysylltu â rhanddeiliaid drwy e-bost er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o fodolaeth yr Adroddiad.
- Drwy gyfeirio at yr Adroddiad ar y wefan a chynnwys botymau poeth i gysylltu â meysydd penodol.
- Drwy sicrhau bod yr Adroddiad ar gael mewn meintiau ffont gwahanol ac yn Gymraeg.

Er mwyn i'r cyhoeddiad fod yn haws ei ddarllen, nid yw'r copïau caled a ddarperir yn cynnwys yr holl wybodaeth am berfformiad. Mae'r fersiwn Adobe a'r fersiwn gwe yn dibynnu ar hyperddolenni i dablau perfformiad 2011-12 y Cyngor ac i adroddiadau craffu. Mae'n dibynnu'n fawr felly ar allu darllenwyr â diddordeb i gael mynediad i'r rhyngrwyd.

Yn unol ag argymhelliad Canllawiau Llywodraeth Cymru, dylai'r Cyngor adeiladu ar y camau gweithredu cadarnhaol a gymerwyd, a dylai ystyried sut y gall sicrhau bod gwybodaeth yn cyrraedd grwpiau defnyddwyr gwasanaethau y byddai'r Adroddiad o ddiddordeb penodol iddynt.

## Cynigion pellach ar gyfer gwella/argymhellion

Ni cheir cynigion ar gyfer gwella yn y llythyr hwn. Byddwn yn parhau i fonitro ac adrodd ar y cynnydd a wneir gan y Cyngor mewn perthynas â gweithredu'r cynigion a nodwyd yn fy adroddiadau a'm llythyrau blaenorol.

Yn gywir



**HUW VAUGHAN THOMAS**
**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

Copi i: Carl Sargeant, Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau
Steve Barry – Rheolwr
Samantha Spruce – Arweinydd Archwilio Perfformiad